

**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN / CENNAU ADRAN 42**
**CARMARTHENSHIRE LOCAL BIODIVERSITY ACTION PLAN**
**LBAP/S42 LICHENS**


Cyfeiriwch at http://wales-lichens.org.uk/ i gael gwybodaeth fanylach a disgrifiadau o'r rhywogaethau
Defnyddir yr holl luniau gyda chaniatâd gwefan Lichens of Wales

**YR AMCANION CYFFREDINOL**

- Adnabod safleoedd newydd i'w harolygu yn y sir.
- Ailarolygu safleoedd allweddol.
- Annog diddordeb mewn cennau gan wirfoddolwyr.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd/ysgolion.
- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y rhywogaethau hyn a'r materion sy'n effeithio arnynt.

| Enw gwyddonol | Llun | Cynefin/Safleoedd yn Sir Gâr | Materion/Camau gweithredu sydd eu hangen |
|---|---|---|---|
| *Bacidia incompta*<br>Llun: © Alan Orange |  | • Boncyffion hen goed 'sylfaenol', yn enwedig llwyfenni (*Ulmus*), yn aml ar ffurf llinellau sy'n ymgordeddu.<br>• Coed y Castell, Llandeilo - cofnodwyd ddiwethaf yn 1981.<br>• Fe'i canfuwyd ar ddwy gastanwydden ym Mharc Dinefwr, Llandeilo yn hydref 2013 gan Neil Sanderson. | • Adnabod a hyrwyddo cofnodion o lwyfenni aeddfed i'w harolygu gan arbenigwyr cennau.<br>• Llwyfen aeddfed ym mynwent Cwrt-henri – ymchwilio. |
| *Buellia hyperbolica*<br>Llun: ©Alan Orange |  | • Hen dderw ar barcdiroedd.<br>• Parc Ceirw Glan Bran, Cynghordy - cofnodwyd ddiwethaf yn 1981.<br>• Parc Dinefwr – fe'i cofnodwyd ddiwethaf yn 2013 – gan Neil Sanderson. Hon oedd y boblogaeth fwyaf i'w chofnodi ym Mhrydain. | • Adnabod safleoedd parcdir i'w harolygu.<br>• Ailarolygu Parc Ceirw Glan Bran. |
| *Caloplaca herbidella*<br>Llun: ©Ray Woods |  | • Ar hen goed mewn porfeydd coed.<br>• Parc Ceirw Glan Bran, Cynghordy - cofnodwyd ddiwethaf yn 1995. | • Adnabod safleoedd parcdir i'w harolygu.<br>• Ailarolygu Parc Ceirw Glan Bran. |
| *Collema fragile*<br>Llun: ©Alan Orange |  | • Waliau a chreigiau calchfaen.<br>• Parc Dinefwr - cofnodwyd ddiwethaf yn 1985. | • Arolygu safleoedd addas. |

| Enw gwyddonol | Llun | Cynefin/Safleoedd yn Sir Gâr | Materion/Camau gweithredu sydd eu hangen |
|---|---|---|---|
| *Collema fragrans*<br><br>Llun: © Alan Orange |  | • Rhisgl sy'n llawn maetholion, yn enwedig llwyfenni a sycamorwydd.<br>• Parc Dinefwr – Coed y Castell - cofnodwyd ddiwethaf yn 1994. | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Lecanographa amylacea*<br><br>Llun: ©Ray Woods |  | • Mae i'w gweld ddim ond yn yr holltau mwyaf sych yn y rhisgl ar foncyffion isaf coed derw hynafol ac ar wreiddiau sydd uwchben y ddaear.<br>• Dinefwr - cofnodwyd ddiwethaf yn 1988. | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Lecanora sublivescens*<br><br>Llun: ©Ray Woods |  | • Yng Nghymru, mae i'w gweld gan amlaf ar goed derw hynafol ac yn anaml ar ynn, fel arfer mewn coetiroedd pori neu mewn caeau agored neu mewn gwrychoedd.<br>• 1985–95 Cynghordy, Dinefwr, Llynnoedd Talyllychau.<br>• 2010, Dinefwr. | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Parmelinopsis horrescens*<br><br>Llun: ©Ray Woods |  | • Mae'n well ganddi risgl coed llyfn a niwtral–asidig, fel bedw, cerdin, gwern a derw ifanc mewn coetiroedd llaith a chysgodol.<br>• Cwm-du – 2004. | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Rinodina isidiodes*<br><br>Llun: © Alan Orange |  | • Coed aeddfed, ar hyd coedwigoedd a choetiroedd hynafol.<br>• Cynghordy, Llangathen 1982, Dan y Parc 1995. | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Schismatomma graphidioides* |  | • Mewn lleoliadau coediog lled-agored, ac mae i'w gweld gan amlaf mewn mannau lle mae coetir a pharcdir yn dod i gysylltiad â'i gilydd, mewn llennyrch cysgodol, porfeydd coed ac ar ymylon coetiroedd.<br>• Dinefwr - cofnodwyd ddiwethaf yn 1976. | • Arolygu safleoedd addas. |

| **Enw gwyddonol** | **Llun** | **Cynefin/Safleoedd yn Sir Gâr** | **Materion/Camau gweithredu sydd eu hangen** |
|---|---|---|---|
| *Toninia sedifolia*<br><br>Llun: ©Ray Woods |  | • Mae i'w gweld ar bridd tywodlyd calchaidd, er enghraifft, yn yr holltau rhwng creigiau calchfaen ac ar silffoedd creigiau mewn ardaloedd arfordirol. Mae hefyd i'w gweld ymhlith bryoffytau ar dwyni tywod lle ceir llawer o gregyn wedi i gytyfiant ddod i ben a chyn y gall planhigion mwy ymledu. Mae cwningod yn pori ar nifer o'r safleoedd. Yn anaml ar galchfaen mewndirol.<br>• Trwyn Wharley a Charreg Cennen – 1986 a 2010. | |
| Brig-far flodeuog *(Usnea articulata)*<br><br>Llun: ©Sam Bosanquet |  | • Mae ei choesynnau heglog, blewynnaidd a chlymog, nad ydynt fel arfer yn gysylltiedig, ac a all fod hyd at fetr o hyd, yn ymchwyddo bob hyn a hyn ar hyd y prif ganghennau i greu llinynnau gwyrdd/llwyd bychain sy'n debyg i selsig ac sydd oddeutu 3mm ar eu traws.<br><br>• Mae tri phrif gynefin: ar ddrain gwynion mewn mannau gwyntog; ar ochr gysgodol planhigfeydd coed llarwydd; ac ar frig coed helyg ar dir llaith. Y mannau eraill lle y'i cofnodwyd yw ar goed deri a cherdin. Cryfder y gwynt yw'r ffactor cyffredin. | • Mwy o gofnodion i gadarnhau ei dosbarthiad.<br>•Dros 20 o safleoedd yn y sir nawr.<br>• Defnyddio'r rhywogaeth hon i ymgysylltu â'r cyhoedd gan ei bod yn hawdd ei hadnabod – anfon taflen i ysgolion/undebau ffermwyr, ac ati.<br> |
| *Usnea florida*<br><br>Llun: ©Alan Hale |  | • Mae'n ffurfio cytrefi melynwyrdd crwn ac unionsyth, sy'n debyg i lwyni, ar frigau a changhennau llai coed a llwyni, ac weithiau ar bren ffensys a chlwydi.<br>• Dros 50 o gofnodion yn y sir. | • Nid oes angen cymryd unrhyw gamau brys. |
| Casgliadau o gen (Lobarion)<br><br>Cen Llabed Ysgyfaint *(Lobaria pulmonaria)*<br>Llun: ©Ray Woods |  | •Cofnodion o Gen Llabed Ysgyfaint (*Lobaria pulmonaria*) ar dri safle: Dinefwr, rhodfa dderw Talyllychau ac Abaty Hendy-gwyn. | • Mwy o gofnodion i gadarnhau ei dosbarthiad.<br><br>http://wales-lichens.org.uk/s42-communities/lobarion-community |
| Casgliadau o gen (Meteloffyt) | http://wales-lichens.org.uk/s42-communities/metallophyte-community | • Dau fwynglawdd plwm segur yn Rhandir-mwyn – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mwyngloddfa Nantymwyn. | |